# Bwyd-amaeth a Thwristiaeth

Hyrwyddo a chefnogi cyflogaeth a hyfforddiant yn y sectorau Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth, gan adeiladu ar sgiliau ac arbenigedd o'r radd flaenaf sydd eisoes wedi'u sefydlu yn y rhanbarth.

## Amcanion

- Creu hyd at 275 o swyddi newydd
- Cynhyrchu hyd at £60m o GVA ychwanegol net
- Addysgu dros 400 o fusnesau ar ddatgarboneiddio, arallgyfeirio a modelau busnes cynaliadwy
- Uwchsgilio hyd at 2,500 o bobl / busnesau
- Darparu hyd at 6,000m$^2$ o ofod llawr i helpu gefnogi twf busnes

## Targed buddsoddi




**£42.2m**

Cyfanswm



## Y Prosiectau




**1. Hwb Economi Wledig Glynllifon**

Prif Noddwr: Grŵp Llandrillo Menai

Hyb economi wledig nodedig o'r radd flaenaf sy'n cynnig cyfleusterau bwyd a gwasanaethau trosglwyddo gwybodaeth i wella'r sector bwyd a diod.

**2. Academi Croeso (Rhwydwaith Talent Twristiaeth)**

Prif Noddwr: Grŵp Llandrillo Menai

Darpariaeth sgiliau twristiaeth a lletygarwch ar gyfer y dyfodol a chynyddu'r budd masnachol o un o'r sectorau mwyaf sefydledig a thwf cyflymaf yn y rhanbarth.

**3. Anturiaethau Cyfrifol**

Prif Noddwr: Zip World

Bydd y prosiect hwn yn hyrwyddo Gogledd Cymru fel cyrchfan twristiaeth gynaliadwy flaenllaw. Nod y prosiect yw denu ymwelwyr ychwanegol mewn ffordd sy'n amgylcheddol gynaliadwy ac yn ystyriol i gymunedau lleol trwy wneud y mwyaf o'r buddion cymdeithasol, economaidd a diwylliannol i'r rhanbarth.

**4. Venue Cymru**

Prif Noddwr: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Prosiect a fydd yn ehangu cyfleusterau Venue Cymru, yn rhoi hwb i swyddi, yn torri carbon, ac yn denu sioeau a chynadleddau mawr a buddsoddiad diwylliannol.

Mae ein hachosion busnes prosiect yn destun Adolygiadau Porth annibynnol gan Hwb Sicrwydd Integredig Llywodraeth Cymru, ar bwyntiau penderfynu allweddol, yn unol â Phroses Porth y Trysorlys

# Cysylltedd Digidol

Mynd i'r afael â heriau cysylltedd o fewn y rhanbarth, gwella'r gallu i ddatblygu technolegau newydd ar gyfer y dyfodol gan sicrhau y gall busnesau a thrigolion elwa ar gysylltedd cyflym o ansawdd uchel.

## Amcanion

- Creu hyd at 285 o swyddi
- Cynhyrchu hyd at £100m o GVA ychwanegol net
- Cysylltedd cyflymder cysylltedd mewn safleoedd allweddol a rhwydweithiau trafnidiaeth
- Darparu rhwydweithiau sy'n addas ar gyfer y dyfodol, megis ffibr llawn a 5G yn y rhanbarth

## Targedau Buddsoddiad



Cynllun Twf £36.7m

Sector Breifat £0.4m

Sector Cyhoeddus £0.1m

**£37.2m**

Cyfanswm

## Y Prosiectau




**1. Campysau Cysylltiedig**

**Prif Ariannwr: Uchelgais Gogledd Cymru**

Sefydlu cwmpas rhwydwaith mewn safleoedd masnachol allweddol yn y rhanbarth, gan gefnogi busnesau gydag opsiynau i gysylltedd hanfodol.

**2. Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig**

**Prif Ariannwr: Uchelgais Gogledd Cymru**

Gwella dibynadwyedd ac ansawdd gwasanaethau symudol ar y prif ffyrdd a rheilffyrdd yn y Gogledd, gan alluogi gwasanaethau ffibr llawn i safleoedd masnachol allweddol ledled y rhanbarth.

**3. Canolfan Prosesu Signal Digidol**

**Prif Ariannwr: Prifysgol Bangor**

Ymchwil a datblygu technolegau newydd sy'n gwella sut mae data yn cael ei brosesu'n effeithlon ac yn ddibynadwy rhwng dyfeisiau a phobl.

Prosiect rhanbarthol

Mae ein hachosion busnes prosiect yn destun Adolygiadau Porth annibynnol gan Hwb Sicrwydd Integredig Llywodraeth Cymru, ar bwyntiau penderfynu allweddol, yn unol â Phroses Porth y Trysorlys

# Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uwch

Hyrwyddo arloesedd a masnacholi technoleg yn y diwydiant gweithgynhyrchu, gan adeiladu ar gryfder presennol y sector o fewn ein rhanbarth.

## Amcanion

- Creu hyd at 150 o swyddi
- Cynhyrchu hyd at £60m o GVA ychwanegol net
- Gweithio gyda hyd at 55 o bartneriaid i ddatblygu technolegau carbon isel neu leihau gwastraff
- Uwchsgilio hyd at 100 o bobl / busnesau yn y technolegau a dargedir

## Targedau Buddsoddiad




£20m

Cyfanswm

## The Projects

**1. Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol**

**Prif Ariannwr: Prifysgol Bangor**

Archwilio'r defnydd o brosesau biolegol fel dewisiadau carbon isel yn lle cynhyrchion a phrosesau gweithgynhyrchu diwydiannol.

**2. Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter**

**Prif Ariannwr: Prifysgol Wrecsam**

Darparu cyfleusterau o'r radd flaenaf i archwilio opteg, ffotoneg a deunyddiau cyfansawdd fel dewis amgen o ddeunydd ysgafn, a fydd yn lleihau carbon o fewn y sector gweithgynhyrchu.

**3. Prosiect Prince**

**Prif Ariannwr: Knauf**

Darparu cyfleuster gweithgynhyrchu inswleiddio Gwlân Mwynol Creigiau newydd, gan ddefnyddio technoleg doddi Ffwrnais Arc Danfor flaengar, i ddarparu cynhyrchiad Gwlan Mwynol Creigiau cynaliadwy sy'n arwain y diwydiant, yn bennaf ar gyfer marchnadoedd y DU ac Iwerddon.

**4. Society 5.0 Prosiect Gweithgynhyrchu a Gallu**


**Prif Ariannwr: Prifysgol Wrecsam**

Bydd y prosiect yn gwella prosiect Ganolfan Peirianneg a Opteg Menter, gan roi mwy o fynediad i ddiwydiant at adnoddau peirianneg manwl-gywir o'r radd flaenaf yn y byd.

**5. Porth Busnes Prifysgol Wrecsam**

**Prif Ariannwr: Prifysgol Wrecsam**

Pontio rhwng Prifysgol Wrecsam a diwydiant lleol, gan feithrin cydweithio, arloesi, creu swyddi a thwf economaidd cynhwysol.




Mae ein hachosion busnes prosiect yn destun Adolygiadau Porth annibynnol gan Hwb Sicrwydd Integredig Llywodraeth Cymru, ar bwyntiau penderfynu allweddol, yn unol â Phroses Porth y Trysorlys


# Tir ac Eiddo

Mynd i'r afael â heriau tir ac eiddo yn y rhanbarth, i ddatgloi cyfleoedd ac adeiladu ar ein cryfderau. Datblygu safleoedd i ddarparu eiddo preswyl a chyflogaeth. Bydd hefyd yn sicrhau'r capasiti mwyaf posibl mewn cysylltiadau trafnidiaeth allweddol.

## Amcanion

- Creu hyd at 2,180 o swyddi
- Cynhyrchu hyd at £700m o GVA ychwanegol net
- Darparu hyd at 20,000m$^2$ mewn eiddo cyflogaeth newydd
- Sicrhau hyd at 1,000 llain adeiladu preswyl newydd

## Targedau Buddsoddiad




**£446.8m**

Cyfanswm

## The Projects

**1. Cyn Ysbyty Gogledd Cymru**

**Prif Ariannwr: Jones Bros Civil Engineering UK**

Datblygu a glanhau'r safle fel ei fod yn addas ar gyfer datblygiadau preswyl ac eiddo cyflogaeth.

**2. Parc Bryn Cegin**

**Prif Ariannwr: Uchelgais Gogledd Cymru**

Gwella capasiti a chyfleusterau'r porthladd, creu angorfa i brosiectau ynni a chludo nwyddau cyffredinol.

**3. Porth Wrecsam**

**Prif Ariannwr: Cyngor Bwrdeistrefol Wrecsam**

Mae'r prosiect hwn yn rhan o gynllun ehangach Porth Wrecsam sy'n anelu i ddarparu fframwaith o gynigion i annog adfywiad trawsnewidiolaml-ddefnydd o'r ardal.

**4. Ysgol Fusnes Albert Gubay**

**Prif Ariannwr: Prifysgol Bangor**

Adeiladu Ysgol Fusnes Albert Gubay ym Mhrifysgol Bangor.

**5. Padeswood**

**Prif Ariannwr: Trafnidiaeth Cymru**

Uwchraddio seilwaith rheilffordd Gwaith Sment Padeswood gyda'r nod o wella effeithlonrwydd gweithredol, lleihau costau, a galluogi gwasanaethau teithwyr a nwyddau amlach ar linell Wrecsam-Lerpwl.

**6. Porthladd Mostyn**

**Prif Ariannwr: Porthladd Mostyn**

Uwchraddio'r angorfa ac adfywio'r hen safle diwydiannol.

**7. Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Môn**


**Prif Ariannwr: Cyngor Sir Ynys Môn**

Cyflawni 12 uned fusnes newydd ar Ystâd Ddiwydiannol Amlwch ac adnewyddu hen Adeilad y Terfynell Forol ym Mhorthladd Amlwch, gan ddarparu 2,200 metr sgwâr o ofod busnes modern.

**8. Porth y Porthladd Rhydd**

**Prif Ariannwr: Cyngor Sir Ynys Môn**

Caffael, dymchwel, dadhalogi, creu llain/datblygiadau ar gyfer datblygu a darparu mynediad a gwasanaethau prif gyflenwad i hen Safle Gwaith Cemegol Peboc/Eastman ar Ystâd Ddiwydiannol Parc Bryn Cefni.




Mae ein hachosion busnes prosiect yn destun Adolygiadau Porth annibynnol gan Hwb Sicrwydd Integredig Llywodraeth Cymru, ar bwyntiau penderfynu allweddol, yn unol â Phroses Porth y Trysorlys

# Ynni Carbon Isel

**Datgloi y buddion ar gyfer datblygu prosiectau ynni carbon isel yn y rhanbarth, a lleoli Gogledd Cymru fel lleoliad arweiniol yn y sector ynni carbon isel.**

## Amcanion

- Creu hyd at 1035 o swyddi
- Cynnyddu GVA net ychwanegol o hyd at £335m
- Cynhyrchu oleiaf 314MW o drydan o ynni carbon isel yn y rhanbarth
- Galluogi arbedion carbon o oleiaf 2,723,000 o dunelli

## Targed Buddsoddi




Cynllun Twf £78.5m

Sector Breifat £157m

Sector Cyhoeddus £248m

**£483.5m**

Cyfanswm



## Y Prosiectau

**1. Cydnerth (Morlais)**
**Noddwr Prosiect: Menter Môn**
Cysylltu Morlais â'r system grid trydan, gan alluogi datblygwyr technoleg llif llanw i osod eu dyfeisiau yn y parth.

**2. Egni**
**Noddwr Prosiect: Prifysgol Bangor**
Cyfleusterau i wella gallu y rhanbarth ar gyfer ymchwil ac arloesedd ynni carbon isel.

**3. Cronfa Ynni Glân**
**Noddwr Prosiect: Uchelgais Gogledd Cymru**
Galluogi ynni adnewyddadwy a datrysiadau datgarboneiddio o fewn ein cymunedau lleol.

**4. Hwb Hydrogen Caergybi**
**Prif Noddwr: Menter Môn**
Bydd y prosiect hwn yn sefydlu cyfleuster cynhyrchu a dosbarthu hydrogen gwyrdd ym Mharc Cybi, Caergybi sydd o fewn ardal Porthladd Rhydd Ynys Môn, gan gyflenwi cwsmeriaid trafnidiaeth ffyrdd, morwrol a rheilffyrdd ar draws Gogledd Cymru.

**4. Canolfan Arloesi, Busnes a Sgiliau Trawsfynydd**
**Prif Noddwr: Cyngor Gwynedd**
Cynllun a fydd yn cynnwys adeilad i gynnwys mannau swyddfa, mannau labordy a chyfleusterau ategol i gefnogi'r diwydiant ynni niwclear a charbon isel ynghyd â'r gymuned wyddonol, wedi'i leoli ar Safle Trawsfynydd.




Prosiect rhanbarthol

Mae ein hachosion busnes prosiect yn destun Adolygiadau Porth annibynnol gan Hwb Sicrwydd Integredig Llywodraeth Cymru, ar bwyntiau penderfynu allweddol, yn unol â Phroses Porth y Trysorlys